



<b>CYFARFOD</b>	<b>BLIDP Gwynedd a Môn</b>
<b>DYDDIAD</b>	21/10/11
<b>TEITL</b>	Fframwaith Sicrhau Ansawdd 2010-11 Deddf Plant 2004 Adran11 Archwilio.
<b>PWRPAS</b>	Cyflwyno dadansoddiad o'r ymatebion a gafwyd.
<b>ARGYMHELLION</b>	Cadarnhau Pwyntiau Gweithredu
<b>AWDUR</b>	Elfyn Jones – Ymgynghorydd Annibynnol

## 1. Cyflwyniad

Mae saith elfen allweddol i **Fframwaith Rheoli Perfformiad BLIDP Gwynedd a Môn fel a ganlyn:**

- Hunanasesiad o drefniadau'r Bartneriaeth [llenwi THAG yn flynyddol].
- Asesiad Blynyddol o'r anghenion diogelu.
- Craffu ar a dadansoddi Adroddiadau Chwarterol a Blynyddol Cydlynwyr Amddiffyn Plant, a chraffu ar yr arolygiadau perthnasol a gwblhawyd h.y. AGGCC, ESTYN, ac AGIC etc.
- Monitro cynnydd yn erbyn y Cynllun Busnes sydd yn ei dro yn adlewyrchu nodau, amcanion a blaenoriaethau datganedig y BLIDP.
- Monitro Rhaglenni Gwaith yr Is-grwpiau.
- Sicrhau bod yr Arolygon Achosion Difrifol (AAD) yn cael eu cwblhau mewn ffordd gwbl ddibynadwy a phrydlon a gofalu y bydd cynnydd yn erbyn argymhellion yn y Cynlluniau Gweithredu AAD a bod asiantaethau yn eu harchwilio.
- **Hunanasesiadau/Archwiliadau gan asiantaethau dan Adran 11 [h.y. sicrhau bod holl asiantaethau cysylltiol/aelodau'r BLIDP yn cwblhau templed Fframwaith Sicrhau Ansawdd].**

**Pwrpas yr adroddiad hwn yw crynhoi casgliadau o'r ymatebion i archwiliad Adran 11/FfSA 2010-11.**

## 2. Cefndir

Bydd gan neu fe ddylai fod gan y rhan fwyaf o'r asiantaethau eu prosesau mewnol eu hunain i bwrpas mesur perfformiad yn erbyn safonau diogelu ond disgwylir i'r BLIDP [swyddogaeth statudol]:

Adolygu effeithiolrwydd y camau a gymerodd pob unigolyn neu gorff sydd â chynrychiolaeth ar y Bwrdd i gydlynu'r hyn a wnânt i bwrpas diogelu a hyrwyddo lles plant a phobl ifanc a gwneud pa argymhellion bynnag y tybiant sy'n briodol i'r unigolion neu i'r cyrff hynny yng ngoleuni arolwg o'r fath.

Yng Nghymru y cyrff/asiantaethau allweddol sydd â **dyletswydd statudol** i ymateb i archwiliadau Adran 11/FfSA yw:

- Yr Awdurdodau Lleol
- Yr Heddlu
- Y Gwasanaeth Profiannaeth
- Y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (GIG)
- Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuencid (GCI)

- Carchardai/YOI'au/Unedau Hyfforddiant Diogel [os ydynt yn ardal y BLIDP]
- Heddlu Trafnidiaeth Prydain.

Yn wyneb y swyddogaeth statudol hon ac fel rhan o'r Fframwaith Rheoli Perfformiad yn gyffredinol penderfynodd y **BLIDP ehangu'r gwahoddiad i gwblhau'r FfSA i'r holl asiantaethau cysylltiol- gan gynnwys y sectorau gwirfoddol a phreifat.**

Pwrpas yr FfSA yw:

- Hyrwyddo gwelliannau i blant y mae angen eu diogelu;
- Cefnogi asiantaethau/gwasanaethau i gynnal archwiliad mewnol ar integriti/cadernid y prosesau diogelu cysylltiedig;
- Cefnogi asiantaethau/gwasanaethau i ddatblygu Cynllun Gweithredu sy'n ymateb i'r bylchau a ganfuwyd yn yr archwiliad; a
- Nodi p'un a oes cynnydd yn digwydd mewn meysydd allweddol yng nghyswllt diogelu plant a hynny trwy gymharu yn erbyn canlyniadau blynyddoedd cynt.

Mae cwblhau'r FfSA yn dangos i ba raddau y mae safonau yn eu lle – rhai sy'n amlwg yn gysylltiedig ag arferion gweithio medrus yn y maes diogelu.

**Fodd bynnag rhaid cofio nad yw'r dystiolaeth a geir yn sgil cwblhau'r FfSA yn cael ei gwirio yn allanol nac yn annibynnol. Nid yw chwaith yn edrych yn fanwl ar ansawdd yr asesiadau risg, ar reoli achosion, goruchwyllo, cynllunio ac adolygu ymyrraeth nac ar natur yr arweiniad y mae uwch-reolwyr yn ei roddi. Felly mae angen trin deilliannau'r FfSA yng nghyd-destun y dystiolaeth o elfennau eraill o Fframwaith Rheoli Perfformiad y BDLIP [e.e. Adroddiadau o Archwiliadau].**

Cafodd templed y FfSA ei ddatblygu trwy'r Is-grŵp Archwilio a Sicrwydd Ansawdd. Cwblhawyd y FfSA am y tro cyntaf yn ystod 2008-09 a chafodd ei gwblhau'n flynyddol wedi hynny. [trowch, os gwelwch yn dda, at Adroddiadau a gyflwynwyd i'r BLIDP dyddiedig 9/7/09 a 7/10/10].

Mae cynnwys y templed [gweler Atodiad 1]wedi'i seilio ar safonau diogelu cydnabyddedig ac ar safonau/meini prawf ychwanegol a gynhwyswyd un ai yn sgil materion cenedlaethol/ lleol esblygol neu fel arall yn dilyn o argymhellion yng nghyswllt Arolygon Achosion Difrifol ac Archwiliadau o Ffeiliau Achos.

Hefyd cynhwyswyd safonau/meini prawf penodol ychwanegol yng nghyswllt yr heddlu ac addysg.

### **3. Dadansoddiad.**

#### Ymateb

**O'r 21 o asiantaethau sydd â chynrychiolaeth ar y BLIDP cafwyd ymateb gan 12 ohonynt. Graddfa ymateb o 62%. Cynnydd bychan ar raddfa 2009-10 [57%].**

I ddibenion y gwaith cyfrifo hwn, cafodd y sector gwirfoddol yng Ngwynedd ac Ynys Môn ei drin fel dau ymatebiad [h.y. ymatebion trwy Mantell Gwynedd a Medrwn Môn].

Cafwyd ymateb gan 8 sefydliad gwirfoddol ac mae hynny'n gynnydd ar 2009-10 [ 5] ond mae'n is na 2008-09 [14]. Rhaid nodi yma bod y rhan fwyaf o ddigon o'r sefydliadau gwirfoddol a ymatebodd yn rhai sydd wedi hir-ymsefydlu ac yn darparu gwasanaethau i blant sydd angen eu diogelu. Ni chafwyd ymateb gan Medrwn Môn.

Calonogol gweld bod Gwasanaeth Ieuenctid Môn a Gwynedd ill dau wedi ymateb.

Ond heb fod mor galonogol yw nodi na chafwyd ymateb gan Awdurdodau Addysg Lleol Gwynedd/ Ynys Môn na chan Wasanaethau Tai Gwynedd/ Ynys Môn.

Anfonwyd gwahoddiad i gwblhau'r templed at 8 darparwr yn y sector preifat [yn bennaf gwasanaethau maethu a phreswyl preifat i blant]. Cafwyd ymateb llawn a gofalus gan un asiantaeth faethu leol [Foster Care Associates]. Ond mae'n siomedig bod ymateb y sector preifat yn dal i fod yn isel o gofio ei fod yn darparu gwasanaethau i rai o blant mwyaf bregus yr ardal.

Yn Atodiad 2 ceir rhestr gyflawn o'r holl asiantaethau yr anfonwyd y templed atynt ac o'r ymatebion a gafwyd.

**O sylwi ar y templedi a gwblhawyd, mae'n amlwg ac yn galonogol nodi bod y mwyafrif helaeth o'r ymatebwyr wedi treulio cryn amser ac wedi ymdrechu'n deg i ddefnyddio'r ymarferiad fel ffordd o hunanasesu eu sefyllfa eu hunain fel asiantaeth a feincnodwyd yn erbyn safonau diogelu allweddol. Ond gwelwyd yn glir yn ystod y broses o ddadansoddi mai ychydig o ddefnydd a wnaeth yr asiantaethau mewn gwirionedd o'r broses hunanasesu/archwilio fel ymarferiad mewnol ar y cyd y tu mewn i'r sefydliad ei hun.**

**Rhaid diolch i aelodau'r Is Grŵp Archwilio am eu cymorth, mewn cyfarfod a alwyd yn arbennig, i ddadansoddi'r ymatebion a gafwyd ac a gyfrannodd at lunio'r prif argymhellion sydd yn yr Adroddiad hwn.**

#### Cynnwys.

Gyda golwg ar symleiddio'r gwaith dadansoddi ar y cynnwys, mae'r ymatebion yn cael eu rhannu yn ôl y Sector Gwirfoddol, Gwasanaethau Iechyd, Heddlu/GCI/Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru/CAFCASS a gwasanaethau a roddir gan yr Awdurdodau Lleol.

Gan fod bylchau yn y templedi a gyflwynwyd gan rai o'r asiantaethau bu'n anodd cronni % y cydymffurfriad yn erbyn safonau/meini prawf fesul sector.

Ond er hynny llwyddwyd i lunio rhai casgliadau a gweld rhai tueddiadau a phatrymau cydymffurfriad yn seiliedig ar yr ymatebion.

#### **4. Crynodeb**

Hoffwn nodi'r rhai isod yn seiliedig ar yr ymatebion a gafwyd:

##### Sector gwirfoddol.

- Roedd yr 8 darparwr o'r sector gwirfoddol a ymatebodd yn sefydliadau lleol a chenedlaethol hysbys iawn, wedi ymsefydlu'n gryf ac yn fawr eu parch gyda'r rhan fwyaf ohonynt, gellid tybio, mewn sefyllfa i ddarparu strwythur cefnogol sylweddol i'w staff ac i'w rheolwyr [e.e. Barnardos, NCH]. Mae'r ffaith na chafwyd ymateb gan rai sefydliadau bychain yn lleol yn peri peth pryder o gofio eu bod nhw, o bosib, angen mwy o gefnogaeth ac o arweiniad.
- Roedd mwyafrif helaeth y sefydliadau ymatebodd yn ymwybodol bod angen cydymffurfio gyda Gweithdrefnau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan [Pt 1] a sicrhau bod y rheini'n cael eu dosbarthu'n effeithiol ymhlith y staff.  
Pan welwyd bod bylchau yn y cydymffurfriad gyda'r safonau amlinellwyd, roedd y rhan fwyaf o'r asiantaethau yn crybwyll eu bwriad i gymryd camau gyda golwg ar gywiro pethau.
- Calonogol hefyd yw gweld bod mwyafrif yr asiantaethau yn amlwg yn gwybod am, a chyda phrosesau/cynlluniau yn eu lle, i gydymffurfio gyda'r Cynllun Fetio a Gwahardd a gweithredu camau gwirio CRB [Criminal Records Bureau] ar staff [Rhannau 2 a 3]. **Anodd dweud a gafodd y gwiriadau hyn eu hailadrodd cyn terfyn y cyfnod gofynnol [h.y. tair blynedd].**  
Mae'n werth nodi bod un sefydliad [GISDA] yn ddealladwy wedi gofyn am wiriadau CRB ar staff gweinyddol sydd â mynediad at ddata personol a sensitif. Ymddengys i'r cais gael ei wrthod am nad oedd angen cymryd y camau. Efallai y bydd y BLIDP yn gofyn am gyhoeddi canllawiau ar y pwnc yn amodol ar yr arolwg cenedlaethol sydd ar hyn o bryd yn cael ei gynnal yng nghyswllt y Cynllun Fetio a Gwahardd.

- Nid oedd pob sefydliad yn glir ar fater nodi **‘unigolyn dynodedig’ y gallai staff droi ato am gyngor a chymorth yng nghyswllt amddiffyn plant a bod hyfforddiant rheolaidd ar lefel briodol yn cael ei roddi i’r unigolyn hwnnw o leiaf unwaith bob dwy flynedd . [Rhannau 5,6].**
- Roedd rhai sefydliadau yn amlwg wedi canolbwyntio ar yr angen i sicrhau bod ganddynt **‘bolisiâu dwysau/dilyn-i-fyny’ priodol yng nghyd-destun cyfeiriadau i’r Gwasanaethau Cymdeithasol [Rhan 8]. Roedd ambell sefydliad yn datblygu ‘llythyr dilyn-i-fyny cyfeiriadol a safonol’ i’w ddefnyddio.**
- Gwelwyd bod rhai sefydliadau yn cydnabod bod angen ffurfioli gwaith cofnodi [Rhan 9] ac yn arbennig felly yng nghyswllt mynychu a bod yn rhan o Grwpiau Craidd a Chynadleddau Amddiffyn Plant [e.e.Gweithredu Dros Blant].
- Roedd y defnydd o **‘bolisi mewnol cydnabyddedig’ yn ei le i’r holl staff sy’n ymwneud ag amddiffyn plant yn cael ei gydnabod yn dda ond er hynny ddim yn ddieithriad [Rhan 10].** Yn briodol iawn roedd un sefydliad [ CAIS] yn cydnabod bod angen adolygu, diweddarau a datblygu’r contractau goruchwylio presennol.
- **Roedd ymwybyddiaeth yr asiantaethau o bolisiâu a phrotocolau yn ymwneud ag amddiffyn plant yn dangos gwelliant cymharol o dynnu cymhariaeth gyda’r ymatebion a gafwyd yn ystod 2009-10 [a oedd yn isel iawn].** Roedd rhai sefydliadau am archwilio i ba raddau yr oedd staff â mynediad i’r protocolau ychwanegol a phriodol [ e.e. protocol camdriniaeth ddomestig] .Ymddengys bod y rhan fwyaf o’r asiantaethau [nid y cyfan] yn fwy ymwybodol bod protocolau a gadarnhawyd gan y BLIDP yn y cyd-destun rhanbarthol, cenedlaethol ac aml-asiantaeth ar gael ar eu gwefannau [gweler ‘troed nodyn’ am y manylion]. Hefyd mae’n ymddangos bod croeso i’r ‘Matrics Protocol’ a ddatblygwyd gan y BLIDP gyda golwg ar gyflwyno crynodeb o’r protocolau ychwanegol gafodd eu cadarnhau.
- **Roedd gwelliant ar 2009-10 [Rhan 15] yn y defnydd o bolisi mewnol cydnabyddedig a chlir yng nghyswllt haeriadau yn erbyn staff.**
- Gan fod yr asiantaethau a ymatebodd wedi dangos cymaint o ymroddiad awgrymir bod copi o’r adroddiad hwn yn cael ei ryddhau i’r sector trwy Mantell Gwynedd a Medrwn Môn.

Gwasanaethau Iechyd [h.y. Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr ac Iechyd Cyhoeddus Cymru].

- Derbyniwyd dau dempled wedi’u cwblhau ar ran y ddwy asiantaeth uchod. Yn amlwg fe dreuliodd amser sylweddol ar gwblhau’r templed ac fe roddwyd inni nodiadau a sylwadau ychwanegol buddiol.
- Er bod y safonau a nodwyd ar y templed yn cyfateb i feini prawf cymharol sylfaenol yng nghyswllt amddiffyn, rhaid cydnabod bod lefel y cynnydd yn dal i fod yn rhagorol gyda **chydymffurfiad sydd bron iawn yn 100% ar draws y templed.**
- Mae’r cynnydd yng nghyswllt cydymffurfio gyda’r Cynllun Fetio a Gwahardd a chwblhau gwiriadau CRB [Rhannau 2 a 3] yn arbennig iawn o gofio beth yw maint y sefydliadau a nifer y staff a gyflogir – ceir Cyfarfodydd monitro rheolaidd Rhan 4 a cheir ymchwiliadau heddlu/mewnol gan yr Adran Adnoddau Dynol. Ond hefyd mae **Polisi Camdriniaeth Broffesiynol ar hyn o bryd yn cael ei ddatblygu gan Iechyd Cyhoeddus Cymru.**
- Yn 2009-10 derbyniwyd bod **angen datblygu ‘Polisi Ymddygiad a Disgyblaeth’** [h.y. bwlio/ymateb i ymddygiad amhriodol ar Wardiau Plant/plant yn rhan o ymddygiad rhywiol niweidiol yn erbyn plant eraill]. Y bwriad oedd trosglwyddo’r mater i’r Pwyllgor Gweithrediadol Diogelu Plant . Yn yr ymateb eleni disgrifir y mater [Rhan 17] fel un ‘amherthnasol/amhriodol’?

- Nodwyd bod cynnydd yn y mynediad at/ ymwybyddiaeth o bolisiâu a phrotocolau cenedlaethol, rhanbarthol a lleol yng nghyswllt amddiffyn plant a hynny trwy ddefnyddio gwefan a phrosesau mewnol y BLIDP.
- **Mae'n amlwg bod pobl yn ymwybodol o'r Protocol Camdriniaeth Ddomestig newydd ond mae'n dda medru dweud bod cydnabyddiaeth a blaenoriaeth yn cael ei rhoddi i'r sialens o weithredu, mewn modd cyson, ar sail amlasiantaethol [ asesu risg/trywyddau mewnol a.y.b.].**

Heddlu GC/GCI/Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru/Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol/CAFCASS.

- Yn y sector hwn cafwyd pum templed wedi eu cwblhau'n llawn. Ond gan mai nifer fechan o ymatebwyr sydd yn y sector [ac amrywiaeth fawr o'r naill i'r llall yng nghyswllt niferoedd y staff ac yng nghyswllt ymwneud â materion amddiffyn plant o ddydd i ddydd] rhaid bod yn ofalus wrth ddehongli'r canlyniadau. Fel cymorth, mae enw'r asiantaeth yn cael ei nodi ynghlwm wrth rai o'r sylwadau isod, pan fo'n briodol.
- Yn ôl y disgwyl gydag asiantaethau y mae ganddynt gyfrifoldebau statudol clir, penodol a'r rheini wedi'u rheoleiddio'n fanwl roedd y **cydymffuriad yn bositif a chalonogol a'r ganran yn gyffredinol uchel ar draws yr amrediad.**
- Canfyddir bod y wybodaeth am brotocolau ychwanegol yn uchel ar draws yr holl ymatebwyr – ac mae hyn yn welliant ar y llynedd.
- Da iawn yw gweld cynnydd gan y Gwasanaeth Tân ac Achub a bellach mae'r angen i weithredu ar wiriadau CRB wedi gwreiddio y tu mewn i Weithdrefnau a Pholisiâu Gweinyddol y gwasanaeth [Rhan 3]. Gwelir hefyd bod proses yn ei lle i ddsbarthu protocolau ychwanegol trwy'r Cydlynnydd Diogelu Plant.
- Tra bo 'unigolyn dynodedig' [Rhannau 5/6,] ar gyfer amddiffyn plant wedi'i nodi gan yr holl asiantaethau nid yw'n glir a yw'r unigolyn hwnnw'n derbyn hyfforddiant penodol, ychwanegol ac arbenigol ai peidio mewn materion amddiffyn. Yn bennaf mae'r cyfeiriadau yn rhai at hyfforddiant cyffredinol. Efallai y bydd raid adolygu'r hyfforddiant sydd ei angen i staff yn y maes arbenigol hwn o waith.
- Yn benodol mae Heddlu Gogledd Cymru yn dweud bod angen adolygu'r hyfforddiant i swyddogion sy'n ymwneud ag amddiffyn plant.
- Yn gyffredinol ceir cydymffuriad uchel yng nghyswllt gofyn am gamau 'dilyn-i-fyny' yn sgil cyfeiriadau amddiffyn plant [Rhan 8] ond dywed GCI bod angen ymgorffori proses o rybuddion ffurfiol o achosion pan fo'r meini prawf amddiffyn plant heb eu bodloni a dim rhagor o gamau'n cael eu cymryd.
- Yn gyffredinol nodir bod y cydymffuriad yn uchel o ran monitro lefel mynychu'r Grwpiau Craidd a Chynadledau Amddiffyn Plant [Rhan 9] – ac mae hyn i'w groesawu. Fodd bynnag dywed CAFCASS yn eu hymateb nad yw'r safon hon, o bosib, yn 'benodol i swyddogaeth Cynghorwyr Llysoedd Plant'. Efallai bod yr ymateb yn dangos bod galw ehangach am 'femorandwm dealltwriaeth' rhwng CAFCASS ac asiantaethau eraill [e.e. Gwasanaethau Cymdeithasol/Heddlu] i egluro natur/hyd a lled yr ymwneud a'r rhannu gwybodaeth pan fo plentyn angen ei ddiogelu a'r ddwy asiantaeth [neu nifer o asiantaethau] yn amlwg yn ymwneud â'r teulu.
- Calonogol yw sylwi bod prosesau clir i oruchwylio staff – rhai sy'n ymwneud ag amddiffyn – yn eu lle [Rhan 10].
- Efallai y bydd gofyn i'r Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol adolygu a oes angen polisi clir yng nghyswllt rheoli haeriadau yn erbyn staff [Rhan 15] .

## **Nodwch fod y rhan hwn o'r adroddiad wedi ei ddiwygio.**

- Roedd yr adroddiad blaenorol yn nodi nad oedd HGC heb ymateb yr adran yn benodol i'r Heddlu, sydd wedi ei gydnabod yn anghywir ers hynny.
- Mae HGC yn cadarnhau bod yr holl gyfeiriadau amddiffyn plant yn cael eu hadolygu o fewn 24 awr ac maent yn gweithio tuag at wahaniaethu rhwng 'cyfeirio' a 'hysbysu' wrth ddefnyddio'r 'CID 16' mewn rhai ardaloedd.
- Mae'r holl ddigwyddiadau sy'n ymwneud a thrais yn y cartref yn cael eu hadolygu a'u mynychu sy'n cael ei fonitro drwy'r ganolfan reoli'r heddlu.
- Mae ffurflen newydd CID 16 wedi cael ei lunio a hyfforddiant wedi ei gynnal i alluogi swyddogion y rheng flaen i'w ddefnyddio'n gywir.
- Ditectif Ringyll a'r Ditectif Arolygydd yn adolygu'r holl 'Section 47s' a 'Single Agency' yn unol â'r gofyn.

### Gwasanaethau Plant Awdurdodau Lleol Gwynedd ac Ynys Môn.

- Dau dempled wedi'u cwblhau'n llawn.
- **Wedi bodloni canran uchel o safonau/meini prawf ar draws yr ystod Gwasanaethau Cymdeithasol Plant [100%] a chynnydd amlwg yn y meysydd allweddol.**
- Mae'r aelodau'n gwybod am yr her sy'n wynebu Gwasanaethau Plant Ynys Môn yn sgil cyhoeddi Adroddiad Arolwg AGGCC. Calonogol yw nodi bod yr ymateb a gafwyd adlewyrchu newidiadau a gwelliannau diweddar y gweithredwyd arnynt.
- Calonogol yw gweld bod materion diogelu plant bellach yn rhan o'r rhaglenni ymsefydlu i'r **holl** staff newydd [Rhan 14];
- Yn ogystal adroddwyd am welliannau yn null cofnodi penderfyniadau a wneir yn yr achosion amddiffyn plant [Rhan 11].
- Yng nghyswllt gwybodaeth 'dilyn-i-fyny' i gyfeiriadau amddiffyn plant [Rhan 8] dywedir bod Gwasanaethau Plant yn aml yn dibynnu ar wybodaeth/ymateb a ddarperir gan asiantaethau eraill.

### Awdurdodau Addysg Gwynedd ac Ynys Môn.

Derbyniwyd ymateb gan yr adrannau Addysg yn dilyn cychwyn y tymor ysgol newydd, nodwch nad yw'r wybodaeth wedi cael ei adolygu gan yr un awdur. Themau allweddol o'r gwahaniaethau Addysg sy'n dod i'r amlwg yw:

- Mae'r ddau awdurdod yn adolygu ymarfer fel ymateb i'r gwersi a ddysgwyd yn dilyn yr arolygiad ar y cyd o wasanaethau yn Sir Benfro, ac maen wedi cytuno ar amserlenni i'w gweithredu.
- Mae'r ddau awdurdod yn adrodd ar weithdrefnau recriwtio ac yn cefnogi gweithwyr corfforaethol.
- Mae'r ddau awdurdod yn adrodd bod polisiau a phrotocolau wedi ei cytuno o fewn yr awdurdodau.
- Mae'r ddau awdurdod wedi buddsoddi i sicrhau argaeledd hyfforddiant diogelu plant.
- Mae angen cryfhau trefniadau monitro i sicrhau cydymffurfiaeth a chysondeb parthed recriwtio ac ymarfer diogel mewn ysgolion a'r awdurdod lleol.

- Mae angen egluro trefniadau llywodraethu sy'n gysylltiedig ac ymarfer diogel rhwng ysgolion a'r awdurdodau lleol.

#### Gwasanaethau Ieuencid Gwynedd a Môn

- Dyma'r tro cyntaf i Wasanaethau Ieuencid Gwynedd a Môn roddi ymateb. Yn amlwg fe gafwyd ymdrech agored a thryloyw i gyflwyno'r sefyllfa bresennol yn erbyn y safonau/meini prawf.
- Da gweld y gwaith amlwg a wnaed ar gwblhau a diweddarau gwiriadau CRB ar staff perthnasol.
- Nodwyd bod angen diweddarau a datblygu polisi gwrth fwlio – yn arbennig fel y mae'n berthnasol i'r defnydd o dechnoleg fodern/bwlio seiber a.y.b.
- Gwasanaeth Ieuencid Gwynedd ddim yn ymwybodol o brotocolau ychwanegol. Gwasanaeth Ieuencid Môn yn ymwybodol ohonynt ac wedi darparu copi ymhob 'Canolfan'.
- Gwasanaeth Ieuencid Môn yn nodi na wyddent am newidiadau i'r rhif ffôn Gwasanaeth y tu Allan i Oriau mewn argyfwng [Rhan 22].

#### Prifysgol Bangor.

- Wedi derbyn ymateb tryloyw a llawn.
- Fel sy'n wir am sawl asiantaeth arall wedi nodi unigolyn dynodedig i fod yn gyfrifol am amddiffyn plant ond heb ddarparu unrhyw hyfforddiant ychwanegol ar y lefel briodol.
- Un pryder neilltuol yw sylwi bod yr ymwybyddiaeth o brotocolau ychwanegol yn isel iawn. Wrth gwrs mae gwybodaeth am brotocolau ecploetio rhywiol, traffig plant, camdriniaeth ddomestig, pobl ifanc yn rhan o ymddygiad rhywiol niweidiol yn erbyn pobl ifanc/ plant yn berthnasol iawn i boblogaeth y myfyrwyr.

#### Sector preifat

Fel y nodwyd eisoes, un darparwr sector preifat a ymatebodd [Foster Care Associates]].

- **Yn gyffredinol wedi bodloni canran uchel o safonau/meini prawf ar draws yr ystod [82%].**
- Cafwyd ymateb clir, tryloyw a llawn.
- Mae'n galonogol gweld fod polisi clir 'dwysau/dilyn i fyny' yn ei le yng nghyswllt atgyfeiriadau amddiffyn plant, Mae llythyr templed 'dilyn i fyny' yn cael ei ddatblygu.
- Angen bod yn ymwybodol y gellir cael mynediad at yr holl brotocolau diogelu plant BLIDP cenedlaethol, rhanbarthol a lleol drwy wefan y BLIDP. Ble nad yw'r sefydliad yn ymwybodol o brotocolau ychwanegol, gweithredu clir wedi'i ddynodi i unioni'r sefyllfa.

**Gellir cael dadansoddiad pellach a manylach o'r ymatebion trwy gysylltu â Rheolwr Busnes BLIDP.**

#### **5. Argymhellion.**

1. BLIDP i ddatblygu cofrestr/ rhestr o 'unigolion dynodedig a enwir sy'n gyfrifol am amddiffyn plant'.

2. BLIDP i gynnig, cyllido a threfnu hyfforddiant i'r 'unigolion dynodedig amddiffyn plant' i'r lefel briodol [Lefel 2/3]. Bydd blaenoriaeth yn cael ei rhoi i geisiadau o'r sector gwirfoddol. I'w gynnwys yng Nghynllun Hyfforddiant BLIDP 2012-13.
3. I ddatblygu'r defnydd o Newyddlen BLIDP i hysbysu asiantaethau/ cynyddu ymwybyddiaeth o brotocolau ychwanegol/ datblygiadau polisi mewn diogelu.
4. Mae angen i'r BLIDP ystyried pa weithredu sydd ei angen o ystyried y diffyg ymateb gan rhai sectorau/ gwasanaethau.
5. Asiantaethau i ddatblygu a monitro cynlluniau gweithredu i ymdrin â diffygion fel y nodir yn yr Adroddiad hwn.
6. I ystyried prif gasgliadau'r adroddiad hwn wrth ddatblygu ac yn y cynnydd yn erbyn Cynllun Busnes BLIDP 2010—13.
7. I barhau i wahodd darparwyr sectorau preifat a gwirfoddol i gwblhau FfSA.
8. Yr Is Grŵp Archwilio a Sicrwydd Ansawdd i ddatblygu cynnwys y FfSA 2011—12 o fewn cyd-destun datblygiadau rhanbarthol. Angen penderfyniad ynghylch p'un a yw BLIDP Gwynedd a Môn am geisio datblygu archwiliad FfSA /Adran 11 rhanbarthol cyffredinol mewn cydweithrediad â'r ddau BLIDP arall yng Ngogledd Cymru.
9. I ddsbarthu copiâu o'r Adroddiad hwn trwy Medrwn Môn a Mantell Gwynedd i sector gwirfoddol Ynys Môn a Gwynedd.
10. Y Rheolwr Busnes i ddarparu copi o'r Adroddiad hwn i'r holl ymatebwyr a chynnig adborth trwy 'ymgyngoriad ffôn' ac/ neu 'weithdai sector' i asiantaethau/ sectorau ar y prif faterion/ themâu a ddynodwyd.

EWJ/Hyd/11